



## **Disgrifiad Swydd**

**TEITL Y SWYDD: Athro dosbarth y Cyfleuster Addysgu Arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADDLI**

**MANYLION Y CONTRACT: Graddfa Gyflog MPS/UPS + SEN1 (£2,845)**

**RHEOLWR LLINELL: Rheolwr STF**

## **PWRPAS Y SWYDD**

Gweithio o dan gyfarwyddyd y Rheolwr CAA a chynllunio a chyflwyno cwricwlwm bywiog, amlsynhwyrdd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion cyfannol eang disgyblion unigol.

## **CYFRIFOLDEBAU**

- Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru 2022 fel y mae'n berthnasol i'n dysgwyr unigol yn cael ei weithredu a'i gyflwyno'n greadigol yn effeithiol;
- Deall yr heriau a osodir ar ein disgyblion o ganlyniad i anghenion corfforol, synhwyrdd a chyfathrebu a defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau realistig a heriol;
- Cynllunio, datblygu a chyflwyno profiadau dysgu thematig, trawsgwricwlaidd, cynhwysol a chreadigol, gan ymgorffori rhaglenni dysgu unigol a grŵp;
- Cefnogi'r Rheolwr CAA i sicrhau bod disgyblion prif ffrwd yn chwarae rhan annatod ym mywyd y CAA a hyrwyddo eu cyfranogiad yn addysgol ac yn gymdeithasol fel y bo'n briodol; Meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i lywio arfer gorau o ran anghenion corfforol, emosiynol a gofal iechyd plant er mwyn cynyddu cyfranogiad;
- Creu a rheoli amgylchedd dysgu addas ar gyfer dysgwyr unigol;
- Creu a chyflwyno ystod o adnoddau dysgu pwrpasol;
- Cynllunio gweithgareddau dysgu cyfunol arloesol i ddysgwyr pe bai angen.
- Hyrwyddo dull cyfathrebu cyflawn a chreu cyfleoedd i ddisgyblion elwa ar Gyfathrebu Amgen a Chynyddol;
- Cefnogi Cynorthwywyr Addysgu i gyflawni rhaglenni;
- Ymgymryd â threfn gofal personol disgyblion;

- Cynorthwyo'r Rheolwr STF i gysylltu â'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod rhaglenni therapiwtig perthnasol yn cael eu dehongli, eu goruchwylio a'u cyflwyno'n gywir mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Cyfrannu at Adolygiadau Person-ganolog, ysgrifennu adroddiadau i ddysgwyr, rhieni, yr ALL ac asiantaethau allanol eraill yn seiliedig ar wybodaeth fanwl am anghenion corfforol, addysgol a gofal disgyblion.
- Monitro ac asesu ac olrhain perfformiad disgyblion;
- Cynorthwyo'r Rheolwr CAA i gysylltu â rhieni/gofalwyr, cydweithwyr ac eraill lle bo'n briodol i sicrhau bod anghenion cymorth yn cael eu nodi'n gynnar ac y gellir eu diwallu'n effeithiol;
- Cynorthwyo Rheolwr yr SFT i ddatblygu a chryfhau cysylltiadau cymunedol;
- Cefnogi rheolaeth perfformiad y tîm CAA;
- Nodi anghenion hyfforddi staff sy'n gweithio o fewn y CAA a darparu hyfforddiant fel y bo'n briodol;
- Cydlynu a chefnogi trosglwyddiad disgyblion i'r CAA ac oddi yno;
- Ymgymryd ag unrhyw a phob dyletswydd a nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a chwrdd â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru);
- Sicrhau rheolaeth ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisïau cytunedig yr ysgol, gan gynnwys gweinyddu gwobrau;
- Cyfathrebu gyda rhieni trwy'r ffolder cartref-ysgol dyddiol a chynnal cyswllt anffurfiol a ffurfiol gyda rhieni/gofalwyr ynghylch materion wrth iddynt godi;
- Cyfrannu at gyfarfodydd a thrafodaethau adrannol;
- Bod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu, iechyd, diogelwch a diogeledd, cyfrinachedd a diogelu data, gan adrodd am bob pryder i'r person dynodedig;
- Dangos ymrwymiad clir i'ch datblygiad proffesiynol eich hun.

## **Arall**

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n gymesur â'r raddfa, yn unol â chais y Pennaeth.

## MANYLEB PERSON

### Cymwysterau

Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"><li>• PCGE neu Tyst Ed.</li><li>• Gradd berthnasol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cymhwyster arbenigol mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol</li><li>• Astudiaeth achrededig bellach</li><li>• Gyrrwr bws mini cymwys</li><li>• • Hyfforddiant Codi a Chario (Trin Plant).</li></ul>

### Profiad

Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymarferydd dosbarth rhagorol sy'n gallu dangos gwybodaeth drylwyr o ddulliau arloesol o addysgu dysgwyr ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau, gan gynnwys ASD.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwybodaeth am ddull cyfathrebu amlsynhwyrdd, cyflawn</li><li>• • Profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnyddio ystod o ddulliau gyda disgyblion â nam ar y synhwyrdd, heriau corfforol ac ASD</li><li>• Profiad o ddefnyddio Ar Drywydd Dysgu / BSquared</li></ul>

### Knowledge and Skills

Hanfodol	Dymunol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o:	Gwybodaeth a dealltwriaeth o:

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaethau addysgu llwyddiannus ar gyfer sicrhau cyfranogiad, cynhwysiant a chodi cyrhaeddiad plant sy'n gweithio ar gamau cynnar eu datblygiad.</li> <li>• Datblygiad cynnar plentyn</li> <li>• Y rhwystrau posibl i ddysgu a achosir gan namau synhwyaidd, corfforol a chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cod Ymarfer ADY a Chwricwlwm Cymru 2022</li> </ul> </li> </ul> <p>Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safonau mewn dysgu, llythrennedd ac addysgu <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau trefnu a gweinyddol</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar Drywydd Dysgu/ BSquared neu weithdrefnau asesu perthnasol eraill</li> <li>• Cynlluniau gofal iechyd a chodi a chario</li> <li>• Arwyddion Makaton</li> <li>• Cyfathrebu Cyflawn, gan gynnwys dulliau Amgen a Chynyddol</li> <li>• Gyrrwr bws mini hyfforddedig Midas</li> </ul>
--	---

### Rhinweddau a nodweddion personol

Hanfodol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i sefydlu perthynas gadarnhaol gyda disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff ac asiantaethau allanol;</li> <li>• Bod â disgwyliadau uchel, realistig ar gyfer pob dysgwr;</li> <li>• Sgiliau llafar, ysgrifenedig a rhyngbersonol hynod effeithiol;</li> <li>• Amynedd, gwytnwch a synnwyr digrifwch</li> <li>• Hyblygrwydd a phenderfyniad;</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol i ystod o gynulleidfaoedd;</li> <li>• Ymrwymiad i gyfle cyfartal a chynhwysiant;</li> <li>• Uchelgeisiol iawn i bob dysgwr;</li> <li>• Bod yn gwbl ymroddedig i gefnogi pwrpas craidd yr ysgol fel yr amlinellir yn Natganiad Cenhadaeth yr Ysgol;</li> <li>• Yn meddu ar y gallu i weithio'n galed ac o dan bwysau;</li> <li>• Ymrwymiad i'ch datblygiad proffesiynol eich hun.</li> </ul>

Mae cyflogaeth yn amodol ar ddatgeliad manylach boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae Ysgol Gynradd Penllergaer wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Rydym yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd neu oedran.

Enw Argraffu:

Arwyddwyd:

Dyddiad: